

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn, gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr ymchwil mewn ysgol ym mhentref yn Ne Orllewin Cymru. Dengys consensws diweddaraf yr ardal dim ond 11.4% o bobl yn yr ardal sydd yn gallu siarad yr iaith Gymraeg (StatsWales, 2011). Dros y tair blynedd ddiwethaf 7% o ddisgyblion sydd wedi derbyn prydau am ddim o fewn yr ysgol, ffigwr sy'n is na'r cyfartaledd. Daw 10% o ddisgyblion o gartrefi cyfrwng Cymraeg. Pennwyd 22% o ddisgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r canran cenedlaethol (Estyn, 2018).

Mae'r disgybl ffocws yn ferch tair blwydd oed yn y dosbarth Meithrin. Sefydlwyd y disgybl yn aelod o grŵp gallu canolig yn y dosbarth. Daw o gartref cyfrwng Saesneg. Ymarfera'r Gymraeg tra yn yr ysgol yn unig. Yn ôl data craidd yr ysgol mae'r disgybl ar ddeilliant 1 o fewn pob maes dysgu ar wahân i iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu sydd yn ddeilliant aur.

Dilynwyd canllawiau BERA (2018) trwy gydol yr ymchwil. Sicrhaodd hyn bod y disgybl ffocws yn cael i barchu ym mhob agwedd o'r ymchwil. Sicrheir ei bod hi'n ymwybodol o'i hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg neu ymatal rhag cymryd rhan yn gyfan gwbl pe byddai'n dewis. Diogelwyd y data a'i gadw'n gyfrinachol. Sicrhawyd hefyd bod rheolau diogelu plant y Brifysgol a'r ysgol yn cael eu dilyn yn ystod yr ymchwil. Dilynwyd canllawiau'r brifysgol o ran Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol yn ogystal, fe wnaeth yr athro dosbarth llofnodi'r llythyr dderbyn y caniatâd priodol i gasglu data, gweler yn atodiad 1.

Yn gyntaf, trafodir yr aseiniad y dull a ddefnyddiwyd er mwyn casglu'r data wrth werthuso ar gyfyngiadau a chryfderau'r dull yno. Hefyd, dangosir yr ymwybyddiaeth o faterion moesegol o ran yr ymchwil. Nesaf, cyflwynir y data casglwyd yn ystod yr ymchwil ar y plentyn ffocws, wrth wneud hyn bydd yr ymchwilydd yn trafod yn fanwl y darganfyddiadau wrth gyflwyno'r data, adfyfrio ar y data ac yna syntheseiddio'r canfyddiadau. Canolbwyntir yr aseiniad ar sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a creadigol ac yna cynnig y ffordd ymlaen ar gyfer y dysgwr.

Dulliau Casglu Data

Casglwyd data trwy gydol yr ymchwil wrth ddefnyddio'r Dull Mosaig. Cynhwysir y dull yma arsylwi'r disgybl, cyfweld a'r disgybl, tynnu ffotograffau, edrych ar samplau o waith y disgybl ac ystyried adborth a arweinir gan y disgybl am brofiadau. Drwy ddefnyddio'r Dull Mosaig, sicrheir bod llais y disgybl yn cael ei glywed. Mae'r dull yn trin y plentyn fel arbenigwr o ran ei fywyd personol gan roi'r cyfle iddo gyfrannu at adfyfyrion (Clark, 2017). Wrth ddefnyddio ffyrdd amrywiol o gasglu data golygir bod yr ymchwilydd yn gallu ffurfio llun cyflawn o sut y gwêl y disgybl ei hun fel dysgwr. Dydy'r Dull Mosaig

ddim yn gyfyngedig i'r ymchwilydd gan fod llawer o ffurf wahanol i arsylwi a darganfod mwy o wybodaeth (Clark & Moss 2011).

Mae yna lawer o fanteision i'r Dull Mosaig o'i gymharu â ffyrdd traddodiadol o arsylwi. Wrth arsylwi yn draddodiadol sylwir bod plant yn gweithredu'n wahanol ac mae ymddygiad y plant yn newid o ganlyniad i hyn, gwelir bod ddim cynrychiolaeth wir o brofiadau'r ystafell dosbarth (Clark & Moss, 2011). Er ei bod hi'n bwysig i wrando ar lais y plentyn, mae'r Dull Mosaig yn galluogi ymchwilydd i gyfuno elfennau geiriol a gweledol yn ystod yr ymchwil. Caniateir i blant gyfathrebu eu syniadau a'u teimladau mewn ffyrdd symbolaidd er enghraifft trwy dynnu lluniau neu ffotograffau. Gwnaiff hyn sicrhau fod cyfranogwyr yn weithredol o fewn y broses ymchwil (Clark, 2017).

Anfantais o ddefnyddio'r Dull Mosaig yw plant yn gweithredu'n annaturiol wrth eu cyfweld, boed drwy geisio plesio'r oedolyn a chynnig atebion ffug a dylanwadu ar ganlyniadau. Gan fod ffyrdd eraill o gasglu data roedd modd casglu tystiolaeth i'w ddadansoddi er mwyn cyflwyno darlun llawn o ddatblygiad y plentyn ffocws. Gan mai prin tair wythnos oedd cwblhau'r ymchwil roedd angen i'r ymchwilydd wneud defnydd da o'r amser i gasglu data defnyddiol gyda'r bwriad o gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf (Cowie, Huser & Myers, 2014). Cytuna Llywodraeth Cymru (2015) â'r angen i arsylwi ar blant er mwyn cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer a sicrhau eu datblygiad. O ganlyniad i hyn, ceisiwyd sicrhau bod y disgybl ffocws yn cael ei harsylwi ar adegau gwahanol ac o fewn amgylcheddau gwahanol.

Dadansoddiad o'r dysgwr

Dywed Nottingham (2013) mai prif bwrpas addysg yw helpu plant sut i ddysgu. Er hyn, dywed bod elfennau eraill sydd yn bwysig, mae angen i blant fod yn rhifog, llythrennog, meddylgar a charedig. Hefyd, bod angen i blant gwybod sut i fod yn foesegol, ystyriol a cymdeithasol. Wrth gyfeirio at y model 'ASG', dywed Nottingham (2013) bod angen adnabod agweddau, sgiliau a gwybodaeth yn y broses o ddysgu ac i sicrhau bod addysg plant yn cynnwys y tair elfen yma. O fewn yr elfen agweddau, cynhwysir agweddau positif tuag at addysg, yn cynnwys dyfalwch a chwilfrydedd. Mae'r elfen sgiliau yn cynnwys y gallu i gynnal gweithredai sydd angen er mwyn i feithrin dealltwriaeth ac i gyflawni perfformiad rhagorol o fewn unrhyw gyd-destun. O ran yr elfen gwybodaeth mae hyn yn cynnwys cynefindra gyda gwybodaeth, cysyniad, damcaniaethau ac arferion o fewn unrhyw gysyniad (Nottingham, 2013).

Cynhaliwyd cymaint o arsylwadau'r wythnos er mwyn cael llawer o dystiolaeth ac esiamplau o waith ar gyfer gwneud y mwyaf i gefnogi cynnydd y disgybl. Er mwyn sefydlu perthynas a chreu awyrgylch addas i gasglu data sgwrsiwyd yn anffurfiol gyda'r disgybl a'i ffrindiau er mwyn darganfod ei theimladau am fyd ysgol a'i gwaith. Wrth gynnal sgwrs fesul grŵp, darparwyd cyfle iddi "fynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau" (APADGOS, 2015) mewn modd naturiol (McLeod, 2008). Ymatebodd yn dda i'r sesiwn. Amlygodd ei bod yn hoff iawn o ddod i'r ysgol i weld ei ffrindiau ac i gymdeithasu. Ategodd ei bod yn hoff o wneud gwaith 'hwyl'. Wrth ofyn iddi ehangu ar hyn, roedd hi'n tueddu cyfeirio at wersi yn yr awyr agored. Pwysleisir arloeswyr addysg plentyndod cynnar megis Montessori, Froebel a Margaret

McMillan y pwysigrwydd o ddarparu addysg o fewn amgylcheddau awyr agored, dywed bod addysg yn yr awyr agored yn gallu meithrin llawer o elfennau positif megis hunan-barch, hyder ac anianawd positif y disgyblion (Garrik, 2009). Ar ran persbectif athrawon yn addysgu yn yr awyr agored, gall addysgu digwydd unrhyw le er cyfleustra fydd ar lawr yr ysgol. Roedd yr ymchwilydd yn ffodus iawn gan fod llawer o safleoedd gwahanol ar lawr yr ysgol yn cynnwys buarth y dosbarth a gwlypdir yr ysgol. Golygir hyn bod llai o amser, arian a chynllunio wedi mynd mewn i addysgu gan fod y gwagle yno yn barod i'w ddefnyddio. Mae'r gymhareb goruchwyliaeth yn debyg iawn yn yr awyr agored hefyd felly golygir hyn bod ddim angen dibynnu ar staff ychwanegol i gefnogi (Robertson, 2014).

Wrth roi camera i'r disgybl a gofyn iddi dynnu lluniau o'r ardaloedd lle'r oedd hi wrth ei bodd yn dysgu o fewn y dosbarth a thu allan, datgelodd ei bod yn hoff iawn o'r ardaloedd chwarae rôl. Cefnogwyd y farn gan dystiolaeth weledol yn ystod y cyfnod arsylwi hefyd. Dengys ymchwil bod chwarae rôl yn cefnogi ystod eang o alluoedd plant. O safbwynt pedagogaid, mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn hanfodol i blant blynyddoedd cynnar i gael profiadau o fewn ardaloedd chwarae rôl gan fod profiadau helaeth yn cael i ddarparu wrth iddynt chwarae rôl. Cynhwysir y profiadau yma llawer o sgiliau creadigol, ieithyddol a rhifyddol y dysgwyr megis meddwl portreadol, cymhwysedd iaith, trafodaeth a datrys problemau (Rogers & Evans, 2008).

Penderfynwyd trafod y disgybl gyda'r athrawes ddosbarth er mwyn casglu data pellach. Datgelodd bod y disgybl yn un sydd yn hapus iawn i gyfrannu at waith o fewn yr ystafell dosbarth. Pleser oedd nodi bod ganddi hi foesau a'i bod yn dod ymlaen gyda'i chyfoedion ac yn barod i'w helpu pan fo angen.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Er iddi ymdrechu ysgrifennu ei henw, megis dechrau oedd ei meistrolaeth o'r sgil "dal offer ysgrifennu'n gywir" (APADGOS, 2015). Gweler Atodiad 2. Wrth edrych ar Atodiad 3, ceir tystiolaeth o'i gallu i ffurfio llythrennau drwy strategaeth tros ysgrifennu. Gwelir bod y cymorth o gael llythrennau yno'n barod yn well na'r hyn a llwyddwyd i'w ffurfio'n annibynnol. Cyfeirir hyn at sgil cwricwlwm "ysgrifennu llythrennau, rhifau a/neu symbolau ar hap" (Llywodraeth Cymru, 2015). Wrth gyfeirio at ddeiliant aur y Cyfnod Sylfaen yn yr elfen ysgrifennu dywed "bydd y plant yn dechrau arbrofi gyda gwneud marciau â phwrpas gyda'r naill law neu'r llall" (Llywodraeth Cymru, 2015). Tystiwyd hyn bod y disgybl wedi cyflawni gofynion cenedlaethol. Cyfeirir hyn at agwedd 'sgiliau' o'r model ASG hefyd gan fod y disgybl yn defnyddio'i sgiliau meddwl er mwyn gwneud ei gorau i fynd dros y llythrennau a sylweddoli dyma'r ffordd gywir o'i wneud (Nottingham, 2013). Dywed Browne (1999) digwyddwyd ysgrifennu mewn sawl ffurf yn y dosbarth meithrin a derbyn a ni fydd yr ysgrifennu yn cyffelybu i fod yn aeddfed ar unwaith ond fydd y plant yn sgriblo, tynnu lluniau, cynnig gwneud llythrennau a llinellau. Rôl yr athrawes yw rhoi cymorth i'r plentyn ac i helpu trwy ddilyniant datblygiad (Browne, 1999).

Defnyddiwyd rhaglen ffoneg synthetig Tric a Chlic pob diwrnod yn yr ystafell dosbarth. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth i atgyfnerthu sain ffurfiad ac mae yna ddefnydd o

symudiadau, caneuon a gemau er mwyn hybu cof y disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2018). Gwnaeth y disgybl ffocws ymateb yn dda iawn i'r sesiwn symudiadau i gydfynd â seinio'r llythrennau sy'n digwydd yn dorfol. Fodd bynnag wrth ofyn iddi ganfod rhai llythrennau yn annibynnol cafodd drafferth eu lleoli. Wrth gyfeirio at y fframwaith a'r sgil "cysylltu cardiau lluniau neu wrthrychau â synau cyntaf ar lafar" (Llywodraeth Cymru, 2015) mae'r disgybl yn caffael ar rai synau yn unig felly dyma fwlch sydd angen gwella arni.

O fewn gwersi iaith sicrheir yr ymchwilydd cyd-destunau cyfoethog o fewn y gwersi addysgwyd er mwyn cryfhau, ymestyn a chymhwysu (Donaldson, 2015). Sicrheir yr ymchwilydd ei bod yn cynnwys elfennau darllen, ysgrifennu a llafar o fewn gwersi iaith. Cyflawnir y disgybl canlyniadau da o fewn gwersi iaith wrth wneud ymdrech i gyflawni tasgau o fewn bob gwers. Cyfeirir hyn at 'agweddau' gan fod y disgybl yn barod i gwblhau tasgau ac yn barod i ofyn am gymorth os mae angen arni (Nottingham, 2013). Defnyddiwyd yr ymchwilydd rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn wersi iaith hefyd wrth sicrhau bod elfennau o gyfri, creu graff ac yn y blaen o fewn gwersi iaith (Donaldson, 2015).

Fel rhan o wers ar thema parti môr ladron gwnaeth y disgybl ffocws ymateb yn dda i'r dasg o ganfod geiriau o amgylch y buarth ac yna paru'r gair cywir gyda llun ar restr siopa. Yna, roedd yn rhaid i'r disgyblion ysgrifennu blaenlythyren y geiriau ar fyrddau gwyn. Roedd y disgybl yn gyffrous iawn am y parti môr ladron. Darparwyd templedi llythrennau er mwyn ei chefnogi yn y rhan ysgrifennu o'r dasg. Cyfeirir hyn at 'agwedd' o'r model ASG, roedd y disgybl a chwilfrydedd i wneud y dasg ac fe oedd hi'n awyddus iawn i lwyddo yn y dasg gan ei bod hi'n gyffrous i'r parti (Nottingham, 2013). Dywed Browne (1999) ei bod yn arfer da wrth gynllunio i gynnwys elfennau o ysgrifennu ym mhob diwrnod ysgol er mwyn hybu'r ysgrifennu ac i adeiladu hyder y disgyblion. Sicrheir yr ymchwilydd bod cyfle i ysgrifennu o fewn cyd-destunau gwahanol o fewn yr ystafell dosbarth, rho hyn y cyfle i ddisgyblion mynd ati yn annibynnol, gyda chymorth athrawes neu oedolyn ychwanegol.

Mathemateg

Adnabuwyd y disgybl rhifau a gall adrodd rhifau hyd at ddeg ar lafar gyda chymorth, er hyn dydy hi ddim yn gallu ysgrifennu rhifau yn annibynnol. Cyfeirir hyn at Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a'r elfen defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau a'r gallu i "adrodd rhifau o 0 i 10, ymlaen ac yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau" (Llywodraeth Cymru, 2015). I gefnogi'r sgil uchod ymarferodd yr ymchwilydd y sgil o gyfrif hyd at 20 gan ddefnyddio ffon gyfrif yn ddyddiol er mwyn i'r dysgwyr ddod i'r arfer o gyfri ac adnabod rhifau. Dywed MacBlain (2014) ei bod yn hynod o bwysig i ailadrodd pethau i blant, dyma un o'r ffyrdd orau i helpu plant i gofio pethau. Wrth i'r ymchwilydd ailadrodd rhifau hyd at 20 bob diwrnod ac yn cwestiynu'r disgyblion ar rifau, dylai hyn fod yn cymorth da i'w helpu cofio. Er hyn, dydy'r disgybl ffocws ddim yn gallu cyfri yn ôl o ddeg.

Yn ôl Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, dylai disgyblion meithrin allu "copïo patrymau a dilyniannau syml gweledol a chlywedol, e.e. patrymau wedi'u clapio, gweithgareddau gosod ar linydd" (Llywodraeth Cymru, 2015). Llwyddodd y disgybl ffocws i gwblhau'r dasg yma yn annibynnol a ddeallodd y cysyniad o greu patrwm gan ddefnyddio

gwrthrychau gwahanol. (Gweler Atodiad 4). Cyfeirir hyn at ran 'gwybodaeth' model ASG a'r elfen cysyniadau gan ei bod hi wedi llwyddo i allu gwneud y dasg a chwblhau'r sgil yn annibynnol (Nottingham, 2013).

O ran tasgau ffocws i'w cyflawni gydag oedolion ychwanegol yn y dosbarth cynlluniwyd gweithgareddau i hybu defnydd o wneud marciau yn bwrpasol. (Gweler Atodiad 5). Gwelir bod y disgybl ffocws wedi cwblhau'r dasg o ddefnyddio paent a chreu olion bys ar ddarn o waith i amlygu niferoedd penodol gan ddeall y cysyniad yn dda. Roedd angen ychydig o gymorth arni wrth gwblhau'r dasg. Cyfeirir hyn at 'agweddau' model ASG a'r agwedd hunanreolaeth gan fod y disgybl wedi cymryd cyfrifoldeb i gwblhau'r dasg yn annibynnol nes i'r oedolyn ychwanegol camu mewn i'w helpu (Nottingham, 2013).

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Deallwyd y disgybl emosiynau, tystiwyd hyn wrth arsylwi amser cylch. Defnyddiwyd pypedau o fewn amser cylch i egluro digwyddiadau sydd yn digwydd o fewn bywyd ysgol e.e. plentyn yn gwrthio plentyn arall ar y buarth. Trwy gydol yr amseroedd yma sylwir y disgybl emosiynau gwahanol y gall y pypedau teimlo e.e. hapus, trist ac ofnus. Dengys y disgybl ffocws elfennau o ddeilliant 1 wrth iddi adnabod emosiynau. "mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau - rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill" (Llywodraeth Cymru, 2015).

Amlygwyd yn gynharach bod y disgybl ffocws yn hoff o chwarae rôl tu fewn a thu allan i'r dosbarth, o fewn deilliant 1 adnabuwyd bod disgyblion "wedi dechrau chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu'n gyfochrog â phlant eraill" ar sail y dystiolaeth yma dengys y disgybl elfen o ddeilliant 1 (Llywodraeth Cymru, 2015). Ar ran chwarae rôl cyfeirir hyn at 'sgiliau' model ASG a'r sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu gan ei bod hi'n ymdrechu i'w wneud gyda'i chyfoedion ac yn llwyddo i ddefnyddio'r sgiliau yma'n effeithiol pob dydd (Nottingham, 2013). Wrth chwarae rôl golygir hyn bod y disgybl yn parhau i ddatblygu o ran pob elfen o'i addysg ac yn gwneud llawer o gynnydd (Rogers & Evans, 2008).

O ran gofal personol, dengys y disgybl agweddau o ddeilliant 1 gan ei bod hi'n ymwybodol o hylendid gan ei bod hi'n gwybod pan mae angen olchi dwylo (Llywodraeth Cymru, 2015). Dilynir yr ysgol Cynllun Gwên Llywodraeth Cymru, mae'r cynllun yn bwriadu gwella iechyd deintyddol y disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'r disgybl ffocws yn brwsio'i ddannedd yn ddiffwdan pob diwrnod ac yn sicrhau ei bod hi'n brwsio'i ddannedd yn gywir yn ôl y cynllun gan sicrhau ei bod hi'n adnabod yr amserydd ac yn brwsio nes i'r amserydd orffen.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Yn ôl deilliant 1 dylai plant "archwilio gwrthrychau a defnyddiau mewn amgylcheddau agos iawn a chyfarwydd" (Llywodraeth Cymru, 2015) cysylltir hyn â darpariaeth barhaus yn yr ystafell dosbarth a'r tu allan, mae'r disgybl ffocws yn ymdrin â'r ardaloedd o fewn y ddarpariaeth barhaus o hyd yn enwedig pan mae darpariaeth

newydd wedi'i osod mae hi'n frwdfrydig i weld beth sydd yno. Cysylltir hyn ag agweddau a'r elfen chwilfrydedd gan ei bod hi'n awyddus i ddarganfod pethau newydd ac yn chwilfrydig (Nottingham, 2013).

Wrth wneud tasg plannu planhigion gyda'r disgybl trafodir y pwysigrwydd o'r tymhorau gwahanol a'r golau o'r haul a dŵr er mwyn helpu'r planhigion tyfu, gofynnir y disgybl ffocws pam mae angen golau a dŵr arnynt er mwyn tyfu, dengys hyn elfen o ddeilliant 1 gan ei bod yn cwestiynu 'pam?' (Llywodraeth Cymru, 2015). Cysylltir hyn a sgil "adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion" gan fod y disgybl ffocws wedi deall y cysyniad o'r gwahanol dymhorau a'r effaith maent yn cael ar blanhigion (Llywodraeth Cymru, 2015).

Creadigol

Cyflawnir y disgybl ffocws sgil celf, crefft a dylunio "gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau" (Llywodraeth Cymru, 2015) gan ei bod hi'n gwneud penderfyniadau dros ei hun ac yn dewis defnyddiau ac adnoddau ei hun wrth gyflawni tasgau, sicrhair yr ymchwilydd bod y dewis yn cael i roi i'r disgyblion gwneud penderfyniadau dros ei hun. Tystiwyd hyn wrth arsylwi yn y ddarpariaeth barhaus hefyd wrth i'r disgybl ffocws dewis pa adnoddau mae hi angen defnyddio. Wrth roi dewis i blant, galluogir hyn ei bod nhw'n gallu cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu ei hun ac yn helpu nhw gwneud penderfyniadau dros ei hun yn hyderus (McLeod, 2008).

Dengys elfen o ddeilliant 1 wrth iddi "dangos peth rheolaeth wrth wneud marciau a phatrymau gan ddefnyddio eu bysedd ac offer" (Llywodraeth Cymru, 2015) wrth iddi gyflawni tasgau celf, crefft a dylunio yn y ddarpariaeth barhaus ac wrth gyflawni tasgau ffocws (gweler Atodiad 5).

Dengys y disgybl ffocws ei bod hi'n gallu defnyddio symudiadau cyferbyniol wrth iddi fod yn yr ardal allanol yn benodol. Tystiwyd hyn wrth arsylwi y tu allan, yn bennaf wrth i'r disgybl adeiladu planc gyda chawell oddi tano ac yno neidio arnynt a glanio ar y buarth. Wrth chwarae gêm o fewn ymarfer corff deallwyd y disgybl y cysyniad o aros yn llonydd. O ganlyniad i'r arsylwadau yma, tystiwyd bod y disgybl ffocws wedi dangos elfen o ddeilliant 1.

Camau Nesaf

Er mwyn helpu'r disgybl ffocws i wneud cynnydd o fewn ei dysg, sicrhair yr ymchwilydd ei bod yn cymryd y camau a thrafodir nesaf o fewn yr aseiniad.

Dywed Albert Bandura ei bod yn hynod o bwysig i fod yn fodel rôl dda fel athrawes gan ei bod yn gwella datblygiad plant yn sylweddol. Wrth i oedolion bod yn fodel rôl dda galluogir hyn i blant dysgu wrth yr oedolyn. Wrth ystyried lleferydd ac iaith mae plant yn dysgu a datblygu llawer wrth oedolion ac yn dynwared ymddygiadau. Galluogir plant i gynyddu a datblygu yn sylweddol o fewn ei dysgu wrth fod yn fodel rôl dda (Gouldsboro, 2018).

Defnyddiwyd y dull sgaffaldio sef damcaniaeth Vygotsky er mwyn rhoi cefnogaeth strwythurol i ddatblygiad y disgybl o fewn addysg. Wrth gael cymorth gydag athrawes neu oedolyn arall rho hyn cefnogaeth weithredol i'r disgybl a gelwir y datblygiad yma yn barth datblygiad procsimol, dyma le mae'r dysgu a'r cynnydd yn digwydd mwyaf. O ganlyniad i hyn galluogir y plentyn gwneud y pethau yma yn annibynnol yn y dyfodol wrth iddynt feistrolï'r sgiliau a ddatblygwyd (Fisher & Frey, 2010).

Darparwyd addysg yn yr awyr agored yn fwy aml gan fod y disgybl ffocws yn cyflawni tasgau yn well yno a gan fod hoffter ganddi o fod yn yr awyr agored. Ymatebir y disgybl yn dda iawn yn yr ardal allanol hefyd. Fel y dywed yn flaenorol, mae addysgu yn yr awyr agored yn gadarnhaol i ddisgyblion ac athrawon felly does dim rheswm pam nad yw'n gallu ei defnyddio'n fwy (Garrik, 2009). Wrth gyfeirio at y 'Leuven Scale' ar gyfer lles ac ymglymiad plant, datgelir y raddfa heb lefel uchel o ymglymiad nid oes dysgu yn digwydd mewn gwirionedd. Wrth edrych ar y raddfa, dengys y plentyn targed level uchel o ymglymiad o fewn gwersi yn yr awyr agored. Tystiwyd hyn o fewn cyfnodau arsylwi hefyd wrth ganolbwyntio ar ymateb y disgybl gwelir ei bod hi'n hapus, llon a llawn egni (Leavers & Heylen, 2003).

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Er mwyn cefnogi'r disgybl ffocws i wneud cynnydd o fewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu sicrheir yr ymchwilydd bod y disgybl yn cael profiadau eang o fewn a thu allan i'r ystafell dosbarth er mwyn ysgrifennu. Galluogir hyn dilyniant i ddatblygiad y disgybl ffocws (Browne, 1999). Wrth symud ymlaen at ddeiliant 2 golygir hyn bod y disgybl yn deall y cysyniad o roi gwybodaeth sy'n cael ei dweud ar lafar yn gallu trosglwyddo i bapur, gwneir hyn drwy bwysleisio'r dull a modelu bod sgysiau ar lafar yn gallu cael i drosglwyddo i bapur (Llywodraeth Cymru, 2015). Dywed Martin *et al*, (2012) bod modelu yn sylfaenol yn natblygiad plentyn er mwyn gwneud cynnydd yn ei addysg i fod yn fwy annibynnol.

Parheir yr ymchwilydd defnyddio'r rhaglen Tric a Chlic gan ei bod yn effeithiol wrth ddatblygu adnabyddiaeth y disgybl ffocws o lythrennau a synau. Wrth wneud hyn bydd y disgybl yn parhau i ddatblygu ac yna galluogir caffael ar a chyflawni'r sgil "cysylltu cardiau lluniau neu wrthrychau â synau cyntaf ar lafar" (Llywodraeth Cymru, 2015)

Mathemateg

Wrth gyfeirio at y sgil "adrodd rhifau o 0 i 10, ymlaen ac yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau" (Llywodraeth Cymru, 2015) nid yw'r disgybl ffocws yn cyflawni hyn yn gyfan gwbl gan ei bod hi ddim yn gallu adrodd rhifau yn cwbl annibynnol a dydy hi ddim yn sicr o gyfri yn ôl o ddeg gan ddefnyddio caneuon a rhigymau. Y cam nesaf fydd i sicrhau ailadrodd pob diwrnod er mwyn i'r disgybl ymarfer ei rhifau a dod i'r arfer o adrodd rhifau yn ôl ac ymlaen (MacBlain, 2014).

Y cam ymlaen nesaf bydd i fodelu i'r disgybl er mwyn sicrhau ei bod hi'n gallu gwneud pethau'n fwy annibynnol yn y dyfodol heb gymorth wrth oedolion, sicrheir hyn datblygiad sylfaenol o fewn mathemateg (Martin *et al*, 2012). Dywed Cheng (2019) ei

bod yn bwysig i fodeli o fewn mathemateg ac i ddefnyddio problemau byd go iawn er mwyn i blant deall y cysyniad o'r broblem neu i helpu cael ateb i gwestiwn, wrth ddefnyddio problemau go iawn dywed bod deallusrwydd y plant yn gryfach na'r hyn o gyflawni cwestiynau heb roi enghreifftiau iddynt. Gan fod y disgybl ffocws â deallusrwydd da o ran mathemateg, gan ddefnyddio enghreifftiau byd go iawn bydd hyn yn adeiladu ar wybodaeth wybyddol y disgybl ffocws (Cheng, 2019).

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Deallir y disgybl emosiynau sylfaenol megis hapus a trist ond fydd yn fraint iddi adnabod emosiynau eraill o ran ei hun a phobl eraill, wrth wneud hyn bydd y disgybl yn dangos elfen o ddeilliant 2 ac yn cyflawni sgil y cwricwlwm sef "mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau - rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill" (Llywodraeth Cymru, 2015). Gwneir hyn drwy fodelu a rhoi enghreifftiau o deimladau gan ddefnyddio pypedau a storïau er mwyn helpu i ddeall yr emosiynau sydd yn fwy cymhleth. Dywed Gouldsboro (2018) bod lles emosiynol plant yn hynod o bwysig i ddatblygiad ac yn caniatáu plant i fynegi ei hun mewn ffyrdd positif.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Er mwyn cyflawni pob agwedd o ddeilliant 1 bydd yn rhaid i'r disgybl ffocws "dangos gwybodaeth am drefniadau arferol pod dydd" (Llywodraeth Cymru, 2015) wrth i amser fynd ymlaen, credir bod y plentyn yn mynd i ddod yn fwy cyfarwydd gyda threfniadau'r diwrnod a bydd yr ailadrodd cyson pod dydd yn helpu i ddod yn gyfarwydd gyda'r trefniadau a'i helpu'i gofio (MacBlain, 2014). Elfen arall o'r deilliant sydd angen cyflawni yw'r elfen "O gael anogaeth gan oedolion, byddant yn dechrau siarad am yr hyn y byddant yn ei greu, megis modelau a lluniau" (Llywodraeth Cymru, 2015) er mwyn hybu cynnydd bydd yr ymchwilydd yn annog y disgybl ffocws i rannu cyflawniadau gyda hwy a gweddill y dosbarth. Cyflawnir hyn wrth roi amser penodol yn ystod y diwrnod i roi cyfle i'r disgyblion o fewn y dosbarth i rannu beth maent wedi'i chreu. Dywed McLeod (2008) bod rhannu syniadau a phrofiadau gydag eraill yn hynod o bwysig i ddatblygiad plant gan ei bod yn ychwanegu at chwilfrydedd plant ac yn galluogi nhw i rannu teimladau a phrofiadau gyda'i gilydd.

Creadigol

Doedd y disgybl ffocws ddim yn chwilfrydig iawn gydag elfennau cerddoriaeth, ni wnaeth hi amlygu'r rheswm yma i'r ymchwilydd ond wrth arsylwi dyma beth wnaeth yr ymchwilydd sylweddoli bod level ymglymiad y plentyn ddim yn uchel iawn o'i gymharu ag amseroedd eraill. Wrth gyfeirio at y raddfa gosodwyd y disgybl ffocws ar ganolig, er ei bod hi'n gwneud y gweithgareddau yn ymwneud a cherddoriaeth ac yn gwneud peth cynnydd dydy hi ddim yn dangos llawer o egni ac mae'n gallu cael i wrthdynnu yn hawdd (Leavers & Heylen, 2003). Y cam nesaf fydd i gyflwyno a chynllunio gwersi cerddoriaeth yn yr awyr agored achos dyma le mae'r disgybl ffocws yn perfformio orau yn ei dysgu ac fel arfer mae hi ar frig y raddfa Leuven wrth arsylwi hi yn yr awyr agored

felly dyma'r cam nesaf gan ddechrau gyda diddordeb y disgybl (Leavers & Heylen, 2003).

Casgliadau

I gloi, wrth adfyfyrio ar yr ymchwil gwelwyd y pwysigrwydd o wrando ar lais y disgybl gan fod hyn yn effeithio ar addysg y plentyn. Wrth i'r plentyn adfyfyrio ar deimladau a rhannu ei barn, galluogir hyn i adfyfyrio a gwrando ar lais y disgybl a chymryd y camau sydd angen er mwyn gwneud cynnydd. Pe bai'r ymchwilydd yn cynnal yr ymchwil eto byddai'n defnyddio'r Dull Mosaig gan fod llais y disgybl yn flaenoriaeth y dull. Galluogir y dull i arsylwi'n fwy naturiol yn lle bod yn strwythurol sydd yn well i blant o'r oed yma yn enwedig (Clark & Moss 2011).

Yr her fwyaf o ddefnyddio'r dull yma oedd yr amser, gan fod dim ond 4 wythnos i'r ymchwilydd cynnal arsylwadau ac ymchwiliadau, pe bai'r ymchwilydd yn gwneud yr ymchwil eto byddai'n sicrhau bod fwy o amser i ymgymryd yn yr ymchwil a chasglu mwy o dystiolaeth ar y plentyn gan ddefnyddio'r Dull Mosaig (Clark & Moss 2011).

Amlygwyd yr ymchwiliad y pwysigrwydd o gefnogi disgyblion yn ei dysgu a'r pwysigrwydd i athrawon arsylwi'i phlant a dod i adnabod ei chryfderau a'i gwendidau er mwyn helpu'r disgyblion i wneud cynnydd addas yn ei dysgu gan roi llais y plentyn yn gyntaf bob tro. Defnyddiwyd dulliau addas wrth addysgu plant megis modelu a sgaffaldio gan fod y rhain yn sylfaenol i gynnydd disgyblion.

Rhestr cyfeirnod

APADGOS. (2015). *Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

BERA (2018) *ETHICAL GUIDELINES FOR EDUCATIONAL RESEARCH*. Llundain: British Educational Research Association.

Browne, A. (1999). *Teaching Writing: Key Stage 1 and Before*. Llundain: Stanley Thornes Publishers.

Clark, A. (2017). *Listening to Young Children, Expanded (trydydd arg): A Guide to Understanding and Using the Mosaic Approach*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Clark, A., and Moss, P. (2011). *Listening to young children: The mosaic approach (ail arg)*. Llundain: National Children's Bureau.

Cowie, H., Huser, C. A Myers, C-A. (2014). The Use of Participatory Methods in Researching the Experiences of Children and Young People. *Croatian Journal of Education*, 16(2), pp. 51-66.

Cheng, K, A. (2019). *Mathematical Modelling for Teachers: Resources, Pedagogy and Practice*. Efrog Newydd: Routledge.

Estyn. (2018). *Adroddiad Ar. Ar Gael*:
<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20%20en.pdf>. Dyddiad: 27/04/19.

Fisher, D & Frey, N. (2010). *Guided Instruction: How to Develop Confident and Successful Learners*. Unol Daleithiau America: ASCD.

Garrik, R. (2009). *Playing Outdoors in the Early Years*. Efrog Newydd: Continuum International Publishing Group.

Gouldsboro, M, J. (2018). *The Voice of the Child: How to Listen Effectively to Young Children*. Efrog Newydd: Routledge.

Leavers, F. & Heylen, L. (2003). *Involvement of Children and Teacher Style*. Leuven: Leuven University Press.

Llywodraeth Cymru. (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael:
<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>. Dyddiad: 27/05/19.

Llywodraeth Cymru. (2018). *Ap Tric a Chlic*. Ar Gael:
<https://hwb.gov.wales/repository/resource/a847d3a3-ae3b-4f38-aa48-ddc11a801f37/cy>. Dyddiad: 26/05/18.

Llywodraeth Cymru. (2019). *Cynllun Gwên*. Ar Gael:
<https://www.designedtosmile.org/welcomes-croeso/croeso/?lang=cy>. Dyddiad: 29/05/19.

MacBlain, S. (2014). *How Children Learn*. Unol Daleithiau: SAGE Publications.

Martin, T. Lovat, C. Purnell, G. (2014). *The Really Useful Literacy Book: Linking Theory and Practice in the Primary Classroom*. Efrog Newydd: Routledge.

McLeod, A. (2008). *Listening to Children: A Practitioner's Guide*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Nottingham, J. (2013). *Encouraging Learning*. Efrog Newydd: Routledge.

Robertson, J. (2008). *Dirty Teaching*. Deyrnas Unedig. Crowne House Publishing.

Rogers, S. & Evans, J. (2008). *Inside Role-Play in Early Childhood Education*. Efrog Newydd: Routledge.

StatsWales. (2011). *Welsh speakers by local authority, gender and detailed age groups, 2011 census*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1



Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cywna.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Amber Edwards

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

[Redacted]

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

Nia Evans

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):


ng Evans

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Atodiad 2



Atodiad 3



Atodiad 4



Atodiad 5

